

Y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear Adolygiad Blynyddol 2012/13



Mae'r adolygiad hwn yn nodi prif gyflawniadau'r Gynghrair dros y flwyddyn ddiwethaf a'r heriau ar gyfer 2013/14



Y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear

Rhagair gan y Bwrdd

Mae hwn yn gyfnod pwysig i ddiwydiant niwclear sifil y DU a'i gadwyn gyflenwi. Wrth i ni nesáu at ddadeni niwclear yn y wlad hon, mae'n hanfodol bod gan gyflogwyr y gweithlu medrus sydd ei angen arnynt i gyflawni'r rhaglen niwclear newydd yn ôl amserlen a chyllideb, yn ogystal â gweithrediadau a gweithgareddau datgomisiynu presennol.

Mae pob un o aelodau'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear¹ yn cynrychioli agwedd bwysig ar y rhaglen honno: o adeiladu i ymchwil a datblygu, o weithrediadau i weithgynhyrchu. Rydym yn cydweithio'n agos â chyflogwyr i nodi'r galw am sgiliau ac i gymryd camau i sicrhau bod gweithlu'r DU yn y manau iawn ar yr adegau iawn, ac yn meddu ar sgiliau priodol, i ateb y galw hwn.

Mae 2012/13 wedi bod yn flwyddyn bwysig i'r Gynghrair Sgiliau: cynaliasom weithdy ar y cyd â diwydiant i gadarnhau bod y meysydd sgiliau yr ydym yn canolbwyntio arnynt, a'r camau sy'n cael eu cymryd, yn gwneud synnwyr; ar sail y sylwadau a gafwyd gan ddiwydiant cyhoeddusom ein cynllun cyflawni cyntaf, manwl ar gyfer sgiliau; gwnaethom ehangu i gynnwys y gymuned Addysg Uwch ac YaD (a gynrychiolir gan Sefydliad Niwclear Dalton Prifysgol Manceinion) a Llywodraeth Cymru; ac rydym wedi sefydlu trefn reoli gadarn ar gyfer y rhaglen i sicrhau bod materion trawsbynciol yn ymwneud â sgiliau (fel Prentisiaethau, gwybodaeth gyffredin am y farchnad lafur a chyllid) yn gallu cael sylw er budd y diwydiant niwclear sifil a'i gadwyn gyflenwi.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r holl weithgarwch hwn yw'r angen am ymgysylltu agos a pharhaus â chyflogwyr. Mae angen i bawb ohonom gydweithio i nodi'r sgiliau sydd eu hangen ac i ddatblygu camau i ddelio â meysydd sy'n destun pryder. I hwyluso'r broses hon, mae aelodau'r Gynghrair Sgiliau yn datblygu Model y Gweithlu Niwclear a fydd yn tynnu sylw at fylchau o ran sgiliau yn ystod y Rhaglen Niwclear Newydd.

Gwyddwn y bydd heriau niferus dros y flwyddyn nesaf, ond mae profiadau dramor yn dangos pwysigrwydd meddu ar weithlu sydd â'r sgiliau i gyflawni. I'r perwyl hwn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth â diwydiant yn ystod 2013/14.

¹ Aelodau'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear: Cyngor Sgiliau Sector Cogent, CITB, ECITB, Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear, Cyngor Sgiliau Sector Semta, Sefydliad Niwclear Dalton, Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	Tud 4
Prif gyflawniadau yn 2012/13	Tud 5
Heriau yn 2013/14	Tud 6
Monitro cynnydd	Tud 8
Astudiaethau achos	Tud 11
Atodiad 1: Proffiliau o sefydliadau sy'n aelodau	Tud 18
Atodiad 2: Strwythur y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear	Tud 24

Cyflwyniad

Cefndir

- Cenhadaeth y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear yw sicrhau bod diwydiant niwclear y DU a'i gadwyn gyflenwi yn cael eu cynnal gan weithlu sy'n meddu ar y sgiliau, y gallu a'r capasiti i gyflawni'n llwyddiannus Raglen Niwclear y DU ar gyfer y presennol a'r dyfodol gan sicrhau'r safonau uchaf o ran proffesiynoldeb, diogelwch a chystadleurwydd.
- Mae'r Gynghrair yn dwyn Llywodraeth, cyrff sgiliau a'r cymunedau addysg uwch ac ymchwil a datblygu ynghyd mewn cynghrair strategol er mwyn:
- Datblygu darlun clir o'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol am sgiliau ar gyfer gweithrediadau niwclear, gwaith datgomisiynu a'r rhaglen adeiladu atomfeydd newydd.
- Osgoi dyblygu ymdrechion drwy gydgyssylltu gweithgareddau.
- Cysoni safonau i gynnal ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir.
- Tynnu sylw at feysydd lle y mae angen camau ychwanegol gan Lywodraeth neu Ddiwydiant i fynd i'r afael â phroblemau o ran sgiliau.

Pwrpas yr Adolygiad Blynyddol

- Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn gyfle i rannu llwyddiannau ac i nodi cynnydd y Gynghrair, yn ogystal ag i ystyried heriau'r flwyddyn sydd i ddod.
- Bydd pob corff sgiliau yn y Gynghrair yn paratoi ei adroddiad manwl ei hun ar ei weithgareddau. Nid nod yr adolygiad hwn yw disodli'r rheini; yn hytrach, mae'n ceisio amlygu'r meysydd lle y mae cydweithredu rhwng Diwydiant, cyrff sgiliau a Llywodraeth yn ychwanegu gwir werth i'r diwydiant.

Prif gyflawniadau yn 2012/13

a) Nodi'r blaenoriaethau o ran sgiliau

- Yn Rhagfyr 2012, cyhoeddodd aelodau'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear gynllun cyflawni cyffredin ar gyfer sgiliau. Mae'r cynllun yn nodi'r 22 o feysydd sgiliau â blaenoriaeth ar gyfer cyflawni rhaglen niwclear sifil y DU, a chatau allweddol i'w cymryd yn erbyn pob sgil. Nodwyd y rhain drwy ymgysylltu rheolaidd â chyflogwyr ac fe'u gwiriwyd gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant niwclear a'i gadwyn gyflenwi mewn gweithdy gan y Gynghrair ym Medi 2012.
- Mae'r cynllun cyflawni yn ddogfen 'fyw' a chaiff ei ddiweddarau wrth i flaenoriaethau'r diwydiant ddatblygu yn ystod y rhaglen. Caiff cynnydd ei fonitro gan Fwrdd y Gynghrair Sgiliau.

b) Gwybodaeth am y Farchnad Lafur: Model y Gweithlu Niwclear

- Yn ogystal â'r dadansoddiad ansoddol a ddefnyddir ar hyn o bryd i nodi blaenoriaethau sgiliau, mae aelodau o'r Gynghrair Sgiliau wrthi hefyd yn datblygu sylfaen dystiolaeth feintiol ar gyfer sgiliau niwclear. Bydd Model y Gweithlu Niwclear, a gafodd ei gomisiynu a'i ariannu gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a chan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, yn adeiladu ar y dadansoddiad o'r gweithlu a geir yn adroddiad gallu Cymdeithas y Diwydiant Niwclear. Roedd y Gynghrair Sgiliau a'r Gymdeithas wedi bod yn ceisio datblygu asesiad cyffredin o'r proffil galw ar gyfer y rhaglen adeiladu newydd 16GW.
- Bydd allbynnau'r model yn nodi bylchau yng nghyflenwad a galwad swyddi penodol ar draws y diwydiant, i sicrhau bod buddsoddiadau mewn sgiliau yn canolbwyntio ar y meysydd mwyaf tyngedfennol i gyflawni rhaglen niwclear sifil y DU.

c) Ehangu aelodaeth y Gynghrair Sgiliau

- Yn 2012, ehangwyd aelodaeth y Gynghrair Sgiliau i gynnwys Sefydliad Niwclear Dalton Prifysgol Manceinion, a Llywodraeth Cymru. Mae Sefydliad Niwclear Dalton yn cyfleu safbwyntiau cymunedau ymchwil a datblygu ac addysg uwch y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod system sgiliau wahanol Cymru yn cael ei hadlewyrchu yng nghanau gweithredu'r Gynghrair Sgiliau.
- Hefyd yn 2012, sefydlodd y Gynghrair drefn reoli gadarn ar gyfer y rhaglen i helpu i ysgogi cynnydd yn yr ystod o ffrydiau gwaith y mae aelodau'n eu

cyflawni. Ceir y manylion i gyd am strwythur y Gynghrair yn Atodiad 2.

Heriau ar gyfer 2013/14

Mae'r tabl isod yn nodi'r heriau lefel uwch y mae aelodau'n eu disgwyl ar gyfer 2013/14, a'n cynlluniau i fynd i'r afael â hwy:

Heriau ar gyfer 2013/14	Gweithgareddau arfaethedig aelodau'r Gynghrair
<p>Y gweithlu adeiladu</p> <p>Wrth i adeiladu gychwyn yn Hinkley Point C, bydd cynnydd sydyn yn y galw am weithlu adeiladu sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol i helpu i adeiladu atomfa.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cydweithio â Choleg Bridgwater yng Ngwlad yr Haf i helpu i roi hyfforddiant cyn cyflogi i'r gweithlu adeiladu lleol.• Datblygu gyda diwydiant y ffordd y cynllunnir y gweithlu i sicrhau bod hyfforddiant perthnasol ar gael ar yr adegau iawn.• Rhoi Safleoedd Adeiladu Niwclear Newydd y Bar Triphlyg ar waith fesul cam.
<p>Delio â bylchau presennol mewn sgiliau</p> <p>Mae cyflogwyr wedi dweud ei bod yn anodd recriwtio staff â sgiliau priodol ar gyfer rolau penodol, a bod hynny'n aml yn arwain at chwyddiant cyflogau (e.e. weldwyr o'r safon uchaf).</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cymryd y camau i fynd i'r afael â sgiliau â blaenoriaeth, a nodir yng Nghynllun Cyflawni'r Gynghrair.• Cychwyn rhaglen £8 miliwn, wedi'i chydariannu gan Berchnogaeth Cyflogwyr ar Sgiliau a diwydiant, i hyfforddi 290 arall o weldwyr o'r safon uchaf dros 2 flynedd.
<p>Canolbwyntio ar y tymor hir</p> <p>Mae angen sicrhau bod sgiliau'n cael eu datblygu ar bob lefel, gan gynnwys mewn meysydd lle y gall gymryd blynyddoedd i feistroli sgil yn ddigonol (fel yn achos arbenigwyr pwnc).</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cydweithio â'r Labordy Niwclear Cenedlaethol a diwydiant i sicrhau cyflenwad perthnasol o arbenigwyr pwnc, gan adeiladu ar adolygiad Syr John Beddington o Ymchwil a Datblygu Niwclear. Ceisio cael cyllid i gefnogi hyn.
<p>Dal gafael ar arbenigedd a gwybodaeth</p> <p>Mae'r gweithlu niwclear sifil presennol yn heneiddio ac mae perygl o golli arbenigedd a gwybodaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cydweithio â diwydiant i sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei dal, ei storio a'i throsglwyddo ar gyfer adegau pan fydd gweithwyr yn gadael y diwydiant.• Rhoi rhaglen ar waith i helpu gweithwyr profiadol nad oes mo'u hangen mwyach ar un safle i drosglwyddo i rolau addas fan arall ar yr ystad niwclear.

Denu talent newydd

Mae'n hollbwysig bod y diwydiant yn gallu denu a chadw'r dalent sydd ei hangen arno i gyflawni'r rhaglen niwclear sifil. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y prentisiaethau a'r llwybrau gyrfaol clir o fewn y diwydiant niwclear.

- Lansio'r Porth Niwclear Cenedlaethol, prosiect wedi'i gydariannu gan ddiwydiant a'r Gronfa Twf ac Arloesedd i sicrhau twf gweddnewidiol yn niwydiant niwclear y DU, gan gynnwys 3,000 arall o brentisiaid yn y gadwyn gyflenwi erbyn 2016.

Monitro cynnydd

Bydd y Gynghrair Sgiliau yn y chwe mis nesaf yn datblygu cyfres gytunedig o dargedau, manteision a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r tabl isod yn cyflwyno rhestr ddangosol o amcanion a chamau i sicrhau manteision posibl.

Amcanion	Manteision	Gweithgareddau	Gwireddu'r Manteision
1. Rhoi sylw i'r bylchau yn sgiliau'r gweithlu.	<p>Cynyddu gallu unigolion sydd wedi'u hyfforddi'n berthnasol, gyda phwyslais penodol ar y bylchau yn y sgiliau â blaenoriaeth a nodwyd gan y Gynghrair Sgiliau.</p> <p>Gwell lefelau cymhwysedd yn ategu ystod gynyddol o sgiliau a chymwysterau mewn meysydd â blaenoriaeth.</p> <p>Rhaglenni perthnasol a hygyrch ar gael i ennyn diddordeb mewn gwaith cysylltiedig â niwclear.</p>	<p>Mapio'r hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd yn erbyn anghenion a nodwyd.</p> <p>Nodi bylchau yn yr hyfforddiant a ddarperir.</p> <p>Datblygu negeseuon cyson ar broblemau ac atebion.</p> <p>Datblygu cynllun sengl i fynd i'r afael â bylchau yn yr hyfforddiant a ddarperir (cytuno ar gynllun).</p> <p>Gweithredu'r cynllun gan ddefnyddio prosesau a systemau datblygedig.</p>	<p>Tystiolaeth o'r cynllun sengl a chamau gweithredu wedi arwain at fanteision pendant.</p>
2. Creu un fframwaith hyfforddi cynhwysfawr. Bydd Fframwaith Hyfforddi'r Diwydiant	<p>Mae cymwysterau a safonau'r Fframwaith Hyfforddi yn rhoi fframwaith datblygu i'r gweithlu niwclear. Gellir</p>	<p>Datblygu/cynnal Fframwaith Hyfforddi'r Diwydiant Niwclear.</p>	<p>Tystiolaeth fod y Fframwaith Hyfforddi'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan</p>

Amcanion	Manteision	Gweithgareddau	Gwireddu'r Manteision
Niwclear yn gweithredu fel ystorfa ganolog i leihau dyblygu.	defnyddio hyn hefyd i ategu Amcan 1.		gyflogwyr.
3. Elwa cymaint â phosibl ar wariant sy'n gysylltiedig â hyfforddi.	Lleihau costau darparu hyfforddiant, er enghraifft drwy gynyddu nifer y dysgwyr er mwyn sicrhau arbedion maint ar raglenni allweddol.	Trwy ddefnyddio'r cynllun a gytunwyd, monitro ac arfarnu cynnydd, gan roi argymhellion ar waith a chymryd camau.	Arwydd pendant bod nifer y dysgwyr ar raglenni allweddol yn cynyddu.
4. Gwneud penderfyniadau cytbwys, gwell ynglŷn â'r ffordd y defnyddir adnoddau.	Lleihau neu ddileu achosion gwastraffus a diangen o ddyblygu gweithgarwch hyfforddi.		Tystiolaeth gydweithredol o rannu adnoddau.
5. Cael gwybodaeth gyson am y farchnad lafur sy'n nodi ac yn cyfleu'n glir anghenion, gofynion, disgwyliadau a blaenoriaethau pendant o ran sgiliau.	Mwy o hyder yn yr wybodaeth am y farchnad lafur, a dim gorgyffwrdd na chyfrif ddwywaith.	Ymgysylltu â chyflogwyr Cwmniau Trwydded Safle a chyflogwyr y Gadwyn Gyflenwi. Trwy gydweithio, cyfrannu at ddyddio mewnbwn i fodel cynllunio'r gweithlu.	Dehongli data GFL perthnasol clir o Fodel y Gweithlu Niwclear.
6. Gwella'r diwylliant niwclear mewn Cwmniau Trwydded Safle ac yn y Gadwyn Gyflenwi.	Pawb yn y gadwyn gyflenwi yn glir ynghylch gofynion a disgwyliadau Cwmniau Trwydded Safle.	Mwy o ddysgwyr ar raglenni ymwybyddiaeth niwclear, e.e. y Bar Triphlyg a'r Dyfarniad am Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant	Mwy o gwmniau'r gadwyn gyflenwi yn meddu ar weithlu sydd â dealltwriaeth o weithio mewn amgylchedd

Amcanion	Manteision	Gweithgareddau	Gwireddu'r Manteision
		Niwclear.	niwclear.
7. Ehangu'r sylfaen wybodaeth/asedau.	Cynlluniau Busnes Partneriaid yn cadarnhau gweithgarwch y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear.	Cydweithredu.	Sôn am weithgarwch y Gynghrair yng nghynlluniau busnes partneriaid.

DS: Mae'r gweithgareddau a restrwyd yn y tabl hwn yn hyblyg a byddant yn ymateb i newidiadau a nodir.

Sefydliad Niwclear Dalton: Arbenigwyr Pwnc



Mae'r Cyngor Sgiliau Sector, Cogent¹, wedi nodi her fawr o ran sgiliau niwclear yn sgil colli arbenigedd drwy ymddeoliadau a galw cynyddol o ganlyniad i adeiladu atomfeydd newydd. Bydd dros hanner y 44,000 o weithwyr sy'n perthyn i'r gweithlu niwclear sifil wedi ymddeol erbyn 2025.

Mae llawer o wybodaeth hanfodol ar gyfer y diwydiant niwclear yn eiddo i "Arbenigwyr Pwnc", unigolion sydd wedi bod wrthi am rai degawdau yn cynyddu eu gwybodaeth, eu profiad a'u dirnadaeth mewn meysydd arbenigol. Yn hanesyddol, câi Arbenigwyr Pwnc wybodaeth drwy gymryd rhan mewn rhaglenni YaD cenedlaethol a rhyngwladol pwysig, a byddent yn aml wedi cael o leiaf 10-15 mlynedd o brofiad YaD, naill ai ym myd diwydiant, academia neu'r ddau. Ni ellir disodli eu cyfraniad yn hawdd.

Mae sefyllfa Arbenigwyr Pwnc y DU eisoes yn fregus. Er enghraifft, heb ymyriad, bydd gwybodaeth ac arbenigedd mewn technoleg ailbrosesu yn lleihau pan fydd y DU yn cau ei chyfleuster ailbrosesu yn 2018. Felly hefyd, mae YaD technoleg tanwydd plwtoniwm yn fregus

¹ Cyfres Dadeni Cogent, Adroddiadau 1 a 2.

ar ôl i'r gwaith MOX yn Sellafield gau yn ddiweddar. Mewn rhai meysydd, mae angen i'r DU feithrin gallu o lefel isel, e.e. gwyddoniaeth ymbelydredd ar gyfer technoleg adweithydd/tanwydd, a hydrogeocemeg yn gysylltiedig â gwaredu tanddaearol.

Gyda ffocws ar y maes hanfodol hwn, sefydlodd Bwrdd Cyngori'r Llywodraeth ar Ymchwil a Datblygu Niwclear Is-grŵp Sgiliau yn cynnwys aelodau o'r Labordy Niwclear Cenedlaethol, Sefydliad Niwclear Dalton Prifysgol Manceinion a'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear.

Ym mhapur yr Is-grŵp Sgiliau 'Diwallu Anghenion Sgiliau Niwclear y DU tan 2050 – Strategaeth Unedig ar gyfer Datblygu Sgiliau YaD o Safon Fydeang', cyflwynwyd gweledigaeth ar gyfer adfywio sylfaen sgiliau YaD niwclear uwch y DU. Mae'r argymhellion yn cynnwys newidiadau i'r ffordd y meddyliwn am YaD – drwy ehangu'r unig ffocws ar sicrhau "cynnyrch" terfynol i gynnwys trosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a phrofiad penodol o Arbenigwyr Pwnc i'r genhedlaeth nesaf. Mae gwaith datblygu sgiliau sy'n adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad newydd sydd i'w cael o gyflawni YaD yn debygol o fod yn bwysig mewn unrhyw Raglen Genedlaethol newydd ar ymchwil ynni niwclear. Yn fwy cyffredinol, gallai strategaeth sgiliau yn y dyfodol hefyd gynnwys cynllunio'n strategol lwybrau gyrfaol ar gyfer unigolion talentog, ynghyd â ffyrdd creadigol o gadw Arbenigwyr Pwnc yn y sector niwclear ar ôl ymddeol yn swyddogol. Byddai hyn yn caniatáu i unigolion ddatblygu'r sgiliau technegol a'r sgiliau eraill sydd eu hangen i ragori yn eu maes arbenigol, ac yn gyfle i gyfrannu dros gyfnod hwy ac i drosglwyddo'u gwybodaeth i eraill.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Athro Andrew Sherry FEng, Sefydliad Niwclear Dalton
Ffôn: +44 (0)161 275 4325; www.manchester.ac.uk/dalton

ECITB a CITB: Astudiaeth Achos Cydweithio



Mae ECITB a CITB yn cydweithio ar nifer o ffrydiau gwaith.

Trwy'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear mae gwaith ar y gweill i nodi'r ddarpariaeth hyfforddi bresennol, dyblygu posibl ac unrhyw fylchau mewn fframweithiau hyfforddiant a chymwysterau. I gychwyn y gweithgarwch hwn mae ECITB a CITB wedi croesfapio'u rhaglenni Iechyd a Diogelwch presennol ar gyfer rheolwyr a goruchwylwyr. Bydd y gwaith hwn yn arwain at archwiliad ehangach o raglenni sector a thraws-sector er mwyn sefydlu safonau adeiladu atomfeydd newydd ar gyfer yr hyfforddiant a'r cymwysterau sy'n ymwneud â goruchwylwyr a rheolwyr.

Mae ECITB a CITB hefyd yn cydweithio i ddatblygu achrediad Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, y mae'r diwydiant yn ei gefnogi, ei gydnabod a'i gymeradwyo, ar gyfer pobl sy'n gweithio ar brosiectau adeiladu atomfeydd newydd drwy'r cynllun CCNSG.

Mae gwaith wedi cychwyn ar fapio'r gwahanol gynlluniau er mwyn dod o hyd i sail resymegol glir i ddiwallu anghenion y rheini sydd yng nghwmpas y ddau sefydliad. Un o fanteision amlwg y gwaith hwn fydd osgoi dyblygu hyfforddiant a bydd hynny'n arwain at fanteision cost ac amser i gyflogwyr perthnasol.

Maent eisoes wedi cael cryn lwyddiant o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid niwclear pwysig ac mae gwersi gwerthfawr wedi'u dysgu o ganlyniad i ymgysylltu â rhaglen adeiladu atomfeydd newydd y DU er 2011. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr ymdrechion i gefnogi rhaglen gyflogaeth a sgiliau'r ddau sector drwy weithio ar y cyd, drwy ymgysylltu ag aelodau eraill o'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear, a thrwy gydweithio'n agos â'r cleient a chontractwyr ar brosiect Hinkley Point C EDF.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Bydd GFL draws-sector yn llywio'r gwaith o ddatblygu sgiliau

Bydd diwydiant niwclear y DU a'i gadwyn gyflenwi yn elwa ar Wybodaeth newydd am y Farchnad Lafur (GFL) pan fydd Model y Gweithlu Niwclear a weithredir gan Cogent yn cael ei ddefnyddio yn ddiweddarach yn 2013 i ddarparu deunydd craidd ar gyfer adroddiadau gan y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear.

Mae Cogent wedi datblygu'r model i roi darlun cynhwysfawr a hyblyg o weithlu niwclear sifil y DU. Trwy'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear, mae Cogent yn cydweithio â CITB, ECITB, yr ASG Niwclear a Semta i feithrin dealltwriaeth o'r gweithlu sydd ei angen ar draws y diwydiant a'i gadwyn gyflenwi.

Un o brif nodweddion y model yw'r gallu i gynhyrchu'n ddeinamig sefyllfaoedd a allai godi yn y dyfodol o ran sgiliau, er mwyn llywio ymyriadau'r dyfodol. Bydd yn nodi manau cul posibl o ran sgiliau niwclear, yn nodi cyfleoedd i drosglwyddo gweithwyr ac yn tynnu sylw darparwyr hyfforddiant at alw.

Bydd GFL fanwl, a adnewyddir yn flynyddol yn galluogi'r diwydiant a'i gadwyn gyflenwi ategol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd wrth law yn y DU. Bydd hefyd yn helpu'r Awdurdod Datgomisynu Niwclear i symud gweithwyr drwy wahanol gamau'r broses ddatgomisynu niwclear.

Cyfleoedd i gydweithio ymhellach

Cydweithio drwy gydol 2013 a thu hwnt

Mae is-grŵp o'r Gynghrair wedi'i sefydlu i gyfarfod yn rheolaidd i drafod yr atebion i Gofrestr Risg y Gynghrair.

Mae'r Gynghrair bellach yn cael ei hystyried yn grŵp cydweithredol ffurfiol, a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol am ddwyn problemau sgiliau ar draws yr holl raglenni niwclear sifil i sylw'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

Beth yw manteision Model y Gweithlu Niwclear i'r diwydiant?

Bydd Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn helpu cyflogwyr i ddatblygu strategaethau recriwtio a datblygu sgiliau ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir.

Bydd mewnbwn gan yr amrywiaeth o sefydliadau sy'n aelodau o'r Gynghrair yn helpu i sicrhau dadansoddiad o'r diwydiant cyfan.

Bydd y data a gynhyrchir yn hanfodol pan fydd y Gynghrair yn ceisio cael y llywodraeth i fuddsoddi mewn sgiliau.

Bydd y canfyddiadau'n arwain at wella a datblygu ymyriadau sgiliau i wneud yn siŵr ein bod yn cael y cyfleoedd gorau i ddileu a delio â bylchau mewn sgiliau.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Cynhyrchu Sgiliau ar gyfer Weldio o'r Safon Uchaf yn y DU



Bydd y rhaglen arfaethedig i adeiladu atomfeydd newydd yn y DU yn rhoi cryn bwysau ar boblogaeth y DU o weldwyr medrus; cydnabyddir hyn yng Nghynllun Cyflawni'r Gynghrair Sgiliau Niwclear sy'n nodi bod Weldio o'r Safon Uchaf yn flaenoriaeth hanfodol o ran sgiliau.

Wrth gyflawni'r rhaglen adeiladu newydd bydd angen prosesau weldio o'r safon uchaf mewn sawl rhan o'r atomfeydd lle y mae diogelwch yn hanfodol a hefyd i gynhyrchu a chydodod cydrannau allweddol. Felly, os na fydd weldwyr â chymwysterau a phrofiad addas ar bob lefel o'r gadwyn gyflenwi niwclear, bydd y rhaglen adeiladu newydd yn y fantol.

Yn rhan o'r Gynghrair Sgiliau, mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianeg a Semta, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sectorau gweithgynhyrchu a pheirianeg uwch, yn cydweithio i helpu i leihau'r ansicrwydd hwnnw.

Mae'r cydweithio rhwng ECITB a Semta dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar rannu gwybodaeth o safonau a rhaglenni presennol, ac ar gynnwys ei gilydd yn y gwaith o ddatblygu gweithgareddau newydd.

Nod ECITB yw sicrhau cynnydd sylweddol yn sgiliau a niferoedd y weldwyr, y goruchwylwyr weldio, y cydgysylltwyr weldio, a'r peirianwyr weldio cymwys

yn y gweithlu adeiladu peirianeg a chynyddu eu gallu i gyflawni prosiectau effeithiol ar safleoedd yn y diwydiant niwclear a fan arall.

Mae ECITB yn cynnig cyflwyno ystod o gymwysterau a strategaethau newydd i wneud safonau'n gliriach ac i annog datblygiad a thwf sgiliau. Maent yn cynnwys:

- Cymhwyster mewn Technegau Weldio o'r Safon Uchaf
- Cymhwyster mewn Goruchwyllo Weldio
- Prentisiaeth Uwch mewn Weldio o'r Safon Uchaf
- Ymgysylltu ag Ysgolion
- Uwchsgilio'r cymorth i grefftwyr presennol

At hynny, mae ECITB eisoes wedi datblygu Safonau Hyfforddi ar gyfer 21 o dechnegau weldio o'r safon uchaf, sy'n cael eu defnyddio gan nifer o gyflogwyr. Disgwylir i'r cymwysterau gael eu cymeradwyo erbyn diwedd Gorffennaf 2013.

Mae Semta, ar y cyd â Rolls Royce a'r Ganolfan Ymchwil Uwch-weithgynhyrchu Niwclear, wedi datblygu'r fanyleb ar gyfer cymhwyster newydd mewn weldio pibelli o'r safon uchaf, y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio, yn benodol, yn y diwydiant gweithgynhyrchu niwclear.

Bydd Diploma Lefel 3 EAL mewn Weldio o'r Safon Uchaf (FfCCh) yn helpu cwmnïau i hyfforddi eu prentisiaid fel bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i gystadlu am fusnes yn y gadwyn gyflenwi niwclear.

Mae'r cymhwyster yn dilyn y Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Weldwyr a ddatblygwyd gan y Sefydliad Weldio a'i nod yw ei gwneud yn hawdd i unigolion ddilyn llwybr datblygiad proffesiynol a allai arwain at gymwysterau safon weldio ryngwladol. Bydd hefyd yn Dystysgrif Dechnegol pan gaiff fframwaith Prentisiaethau Uwch L3 Semta ei gyhoeddi nesaf.

I grynhoi, mae cynllunio ar gyfer y sgiliau y bydd eu hangen i adeiladu atomfeydd newydd, o ran adeiladu peirianeg a gweithgynhyrchu offer, yn flaenoriaeth allweddol i ECITB a Semta. Mae datblygiad a thwf weldio o'r safon uchaf yn bwysicach na dim yn y gwaith hwn.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianeg
www.ecitb.org.uk

01923 260000

Dathlu Rhagoriaeth mewn Sgiliau ar gyfer Niwclear



Mae ymchwil yn dangos y bydd rhaglen adeiladu atomfeydd newydd yn mynnu rhwng 110,000 a 140,000 o flynyddoedd pobl o waith niwclear crefftus – yr un faint o weithwyr ag y byddai eu hangen pe bai'n rhaid paratoi ar gyfer Gêmau Olympaidd Llundain 2012 dair gwaith. Mae hyn yn golygu bod angen rhyw 1,000 o brentisiaid newydd a 1,000 o raddedigion STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) newydd, ar hyd a lled y diwydiant niwclear sifil a'i gadwyn gyflenwi, bob blwyddyn tan 2025.

Ystyrir prentisiaethau a graddedigion yn ddwy o'r prif ffyrdd o ailgyflenwi a meithrin sgiliau ar gyfer y sector niwclear.

Mae'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear a Chyngor Sgiliau Sector Cogent wedi cydweithio ar noson flynyddol Gwobrau Sgiliau Niwclear y DU, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2009.

Mae Gwobrau Sgiliau Niwclear y DU yn galluogi'r diwydiant i arddangos rhagoriaeth mewn datblygu sgiliau ac i dynnu sylw at broffesiynoldeb gweithwyr niwclear.

Mae'r Gwobrau'n dathlu cyflawniadau Prentisiaid, Graddedigion, Myfyrwyr HND/FD ac unigolion sydd wedi cyfrannu'n neilltuol at ddatblygu sgiliau'r bobl yn eu sefydliadau.

Mae'r digwyddiad yn enwi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu fel hyrwyddwyr i'r diwydiant. Mae nifer o'r terfynwyr wedi dod yn llefarwyr i'r diwydiant ac wedi mynychu llu o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth, i helpu i hyrwyddo'r Sector a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r genhedlaeth nesaf o brentisiaid a graddedigion.

Bydd pob terfynwr yn paratoi ffilm astudiaeth achos fer a gaiff ei defnyddio i hyrwyddo gyrfaedd yn y diwydiant niwclear, prentisiaethau, llwybrau i raddedigion a chymwysterau eraill. Mae nifer o'r ffilmiau wedi'u defnyddio mewn deunyddiau STEM i roi enghreifftiau o bobl sydd wedi dewis gyrfa yn y diwydiant niwclear, er mwyn helpu i annog mwy o brentisiaid a graddedigion.

Mae'r Gwobrau yn gyfle blynyddol i'r diwydiant godi ymwybyddiaeth er mwyn hyrwyddo'r Sector; maent yn dangos bod y diwydiant niwclear yn un sy'n cynnig gyrfaedd a chyfleoedd i ddatblygu.

Mae'r digwyddiad bellach yn llawn bob blwyddyn ac yn un o'r ffefrynnau yng nghalendr digwyddiadau'r diwydiant niwclear.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Cyngor Sgiliau Sector Cogent
Gwefan: cogent-ssc.com
Ffôn: 01925 515200

Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear
Gwefan: nuclear.nsacademy.co.uk
Ffôn: 01900 898120



Paratoi ar gyfer y Cyfnod Adeiladu Atomfeydd Newydd



Nid oes gan newydd-ddyfodiaid i'r sector ymwybyddiaeth na dealltwriaeth sylfaenol o weithio ar brosiect adeiladu adweithydd niwclear sifil newydd.

Mae gan lawer o unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu sgiliau technegol a phroffesiynol, ond mae angen iddynt ddeall sut i ddefnyddio'r sgiliau hyn mewn amgylchedd a chyd-destun niwclear, a meithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n 'arbennig' am weithio mewn amgylchedd niwclear ac o effaith gudd ymddygiadau.

Mae EDF Energy NNB, yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear a CITB wedi datblygu **Hyfforddiant ac Asesiad Safleoedd Adeiladu Atomfeydd Newydd y Bar Triphlyg (TBNNBS)**, ac mae bellach yn barod i'w gyflwyno cyn i waith galluogi gychwyn yn Hinkley Point C.

Her fawr oedd trefnu i ddarparu'r hyfforddiant a'r asesiad yn eang ar draws y DU. Aethpwyd i'r afael â hynny drwy greu'r hyfforddiant fel pecyn amlgyfrwng ac e-ddysgu sydd ar gael am ddim ar y rhyngwyd drwy Borth Ar-lein yr Academi Sgiliau. Bydd hyfforddiant ystafell ddosbarth yn cael ei ddarparu hefyd drwy Ddarparwyr â Sicrwydd Ansawdd.

Mae'r TBNNBS yn rhoi'r hyfforddiant mewn cyd-destun yn benodol ar gyfer yr agenda adeiladu newydd ac fe'i datblygwyd mewn ymateb i gais rhanddeiliaid y Diwydiant Niwclear i gyflwyno 'bar mynediad' ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn a chyda'r Diwydiant Niwclear. Bydd yr Asesiad ar gael mewn 153 o Ganolfannau Profi Pearson-VUE ac mewn dros 300 o ganolfannau profi CITB annibynnol cymeradwy ledled y DU.

I sicrhau llwyddiant y prosiect datblygu hwn mae wedi bod yn hanfodol cytuno ar egwyddorion cadarn ar gyfer cydweithredu ar draws y grŵp rhanddeiliaid CITB, EDF Energy a'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear. Mae hyn wedi'u hannog i bennu, a chyrraedd, nodau cyffredin a fydd yn helpu i gyflwyno ffordd o leihau effaith y baich cost ac amser ychwanegol ar brif gcontractwyr, sefydliadau'r gadwyn gyflenwi a gweithwyr, ac yn sicrhau bod safonau cadarn yn cael eu pennu, eu mesur a'u cynnal.

Disgwylir y bydd tua 25,000 o weithwyr yn ymwneud â Hinkley Point C dros y 10 mlynedd nesaf. Mae paratoi a meddu ar y sgiliau i weithio yn y diwydiant niwclear yn hanfodol i lwyddiant rhaglen adeiladu atomfeydd newydd y DU yn y dyfodol.

Mae cael deunydd hyfforddi ac asesu Safleoedd Adeiladu Atomfeydd Newydd y Bar Triphlyg yn barod ar gyfer dechrau'r rhaglen yn helpu i sicrhau bod y sgiliau trosglwyddadwy ar gael ar gyfer safleoedd adeiladu atomfeydd newydd olynol wrth i'r rhain gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Uwchsgilio Gweithgynhychwyr y DU ar gyfer Niwclear



Mae'r prinder sgiliau yn y gadwyn gyflenwi gweithgynhyrchu ar gyfer rhaglen adeiladu newydd y DU yn cyfateb i 200-400 ar lefel raddedig ac uwch, 300-400 ar lefel dechnegol a 150-300 ar lefelau is - neu tua 1,000 yn fwy o weithwyr na heddiw bob blwyddyn tan 2025.

Oherwydd hynny, cychwynnodd yr Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear ar gynnig yn 2011 i ehangu ei gwasanaethau i faes Gweithgynhyrchu Niwclear er mwyn hybu twf sgiliau yn y diwydiant gweithgynhyrchu niwclear.

Sut bynnag, oherwydd y dryswch a'r dyblygu presennol yn y tirlun sgiliau i gyflogwyr, penderfynwyd y byddai'n well dwyn ynghyd gryfderau unigol Semta, y cyngor sgiliau sector ar gyfer y sectorau gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch, a'r Ganolfan Ymchwil Uwchweithgynhyrchu Niwclear i greu partneriaeth gref ac arloesol a fyddai'n sicrhau un neges gydgyssylltiedig ac arlwy integredig.

Her fawr wrth ddod â thri sefydliad tra gwahanol ynghyd, mewn amser byr, oedd ceisio cytuno ar gynllun busnes a phenderfynu sut y byddai'r bartneriaeth yn gweithio yn ymarferol. Cafodd heriau fel cyllid, staff, swydd-ddisgrifiadau, a'r cynhyrchion i'w cynnig a'u perchnogaeth eu trafod yn fanwl nid yn unig ar lefel uwch ond gan bawb yn y sefydliadau.

Yr her arall oedd trefnu cynrychiolwyr o blith cyflogwyr, i sicrhau y byddai'r bartneriaeth yn diwallu eu hanghenion.

I fynd i'r afael â hyn, gwnaeth y partneriaid gyfarfod yn rheolaidd a chydabod yn agored yr hyn yr oedd pob un yn ei gyfrannu ac yn ei gael gan y bartneriaeth, i sicrhau tegwch i bawb. Sefydlwyd nifer o weithgorau cyflogwyr hefyd i lywio'r cynigion.

Un wers allweddol oedd pwysigrwydd cynnwys digon o amser i gydweithio â phob sefydliad partner, ar bob lefel yn hytrach na thrwy staff uwch yn unig. Mae cynnwys amser i ymgynghori â chyflogwyr hefyd yn hanfodol.

Aeth y bartneriaeth i'r afael â'r heriau hyn yn llwyddiannus, a chymeradwywyd y cynllun busnes ym Mai 2012 a lansiwyd "Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Gweithgynhyrchu Niwclear" yn swyddogol ym Medi 2012.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Atodiad 1 – Proffiliau'r Cyrff Sgiliau



Cogent yw'r corff sy'n pennu safonau sgiliau ar gyfer y Diwydiant Niwclear. Ei nod yw helpu i gyflenwi digon o bobl â sgiliau addas i ateb yr her aruthrol o sicrhau'r dadeni niwclear a'r newid i gynhyrchu trydan carbon isel. Mae holl waith Cogent wedi'i anelu at y nod hwnnw ond mae eu dylanwad ym meysydd penodol ymchwil, safonau cymwysterau a swyddi, a sgiliau'r dyfodol.

Ymchwil – Bydd Cogent yn cynnal Model y Gweithlu Niwclear, er mwyn i ddiwydiant ac academia gael Gwybodaeth o'r radd flaenaf am y Farchnad Lafur (GFL). Y nod yw sicrhau bod y gweithlu cyffredinol o'r holl sectorau sydd eu hangen i gynnal y rhaglen bresennol yn gallu gwneud hynny'n ddiogel ac yn effeithlon, yr un pryd â chyflawni'r rhaglen adeiladu atomfeydd newydd yn unol â dyheadau'r diwydiant a'r llywodraeth.

Safonau Cymwysterau a Swyddi – Mae Fframwaith Hyfforddi'r Diwydiant Niwclear yn darparu cronfa ddata o safonau hyfforddi. Dyma ffynhonnell safonau hyfforddi'r diwydiant niwclear, ac mae'n cynnwys safonau hyfforddi a luniwyd gan gyrff sgiliau eraill pan fônt yn berthnasol i'r diwydiant niwclear ac yn cael eu defnyddio ganddo. Mae gan y diwydiant niwclear categorïau swyddi a gytunwyd, ac felly mae'r holl safonau'n sefyll mewn categorï penodol. Bydd y Fframwaith Hyfforddi yn helpu cyflogwyr i ateb heriau mawr o ran sgiliau ac yn galluogi'r gweithlu i gael eu rhoi ar Basbort Sgiliau'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear i hwyluso symud gweithwyr o gwmpas y diwydiant heb orfod ailadrodd hyfforddiant. Bydd Cogent yn datblygu ac yn cynnal safonau sydd eu hangen ar y diwydiant niwclear i sicrhau bod y Fframwaith Hyfforddi'n gynhwysfawr.

Sgiliau'r Dyfodol – Mae'r syniad o Ynys Niwclear wedi'i greu i helpu i ddarparu gweithlu sy'n barod ar gyfer niwclear ac sy'n meddu ar ddealltwriaeth o'r ymddygiadau diogelwch niwclear hanfodol sy'n berthnasol i'w proffesiwn. Ar hyd 2013 bydd Cogent, ar y cyd â sefydliadau sy'n bartneriaid, yn estyn y pecyn peirianeg sifil presennol i gynnwys peirianeg fecanyddol a thrydanol, i wneud y diwydiant yn fwy atyniadol i ragor eto o beirianwyr a thechnegwyr. Uchelgais Cogent yw cynyddu nifer y colegau a'r prifysgolion sy'n cynnig y rhaglen i ddenu dros 900 o fyfyrwyr i'r rhaglen wythnos.

Bydd Cogent yn diweddarau'r adnodd Llwybrau Gyrfa, i wella'r wybodaeth sydd ar gael ac i ysbrydoli unigolion sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant drwy wybodaeth glir a chywir. Bydd sefydlu cysylltiad â'r cwricwlwm ysgol yn galluogi athrawon a chynghorwyr gyrfaedd i fanteisio ar yr offeryn hwn.



Fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, rôl CITB yw cynyddu hyfforddiant a sgiliau yn y sector adeiladu. Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwerau i godi ardoll ar ddiwydiant; bydd CITB yn rhoi'r arian a gasglwyd yn ôl ar ffurf grantiau hyfforddi. Yn 2003, caniatáwyd i Sgiliau Adeiladu weithredu fel Cyngor Sgiliau Sector. Mae CITB yn ceisio:

- lleihau bylchau mewn sgiliau
- gwella perfformiad busnesau
- dod ag amrywiaeth o bobl i mewn i'r diwydiant
- gwella'r dysgu ar gyfer prentisiaethau, addysg bellach ac addysg uwch
- datblygu safonau galwedigaethol proffesiynol

Mae CITB hefyd yn darparu gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n ddibynadwy ac ar y blaen, ac yn cynnig adnoddau fel y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu a'r Offeryn Rhagolygon Llafur Sgiliau Adeiladu. Mae'r Rhwydwaith yn ffordd unigryw o bennu'r sgiliau a'r hyfforddiant y bydd eu hangen yn y dyfodol ar ddiwydiant adeiladu'r DU; mae'r Offeryn yn rhoi 'sylfaen dystiolaeth' ar gyfer cynllunio a negodi manteision cymunedol realistig sy'n codi o ofynion sgiliau a hyfforddiant ar brosiectau adeiladu.

Yn 2012 dyrannodd CITB £2 filiwn o'r ardoll drwy'r adran Prosiectau Mawr er mwyn hybu agenda cyflogaeth a sgiliau sector adeiladu'r DU yng nghyd-destun y rhaglen Adeiladu Atomfeydd Newydd. Rôl yr adran Prosiectau Mawr yw cydgyssylltu atebion i'r problemau sgiliau a wynebwr gan brosiectau seilwaith mawr, a gwella'r sgiliau sydd ar gael a chynhyrchiant y sector adeiladu trwy gynhyrchion a gwasanaethau cyflogwyr a sefydlwyd gan CITB, a thrwy ddatblygu atebion newydd.

Yn ogystal â chydweithio'n agos ag asiantaethau, darparwyr, broceriaid a sefydliadau allanol eraill, mae CITB mewn sefyllfa unigryw yn yr amgylchedd addysg, sgiliau a chyflogaeth i gefnogi'r gwaith hwn fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant, Cyngor Sgiliau Sector, Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Adeiladu, Coleg Adeiladu Cenedlaethol, y corff dyfarnu Cskills Awards a darparwr Gwasanaethau Cyflogwyr:

- Y Coleg Adeiladu Cenedlaethol yw cangen hyfforddiant uniongyrchol CITB a darparwr hyfforddiant adeiladu mwyaf Ewrop. Mae ganddo bum campws o amgylch y wlad sy'n cynnig hyfforddiant adeiladu arbenigol.
- Mae'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Adeiladu yn darparu hyfforddiant yn ôl galw a thrwy brosiectau. Mae'n helpu cleientiaid a chontractwyr i gael y sgiliau iawn yn y manau y mae eu hangen arnynt.
- Mae'r corff dyfarnu blaenllaw, Cskills Awards yn cynnig ystod eang o gymwysterau cymhwysedd (NVQ) a chymwysterau hyfforddi mewn adeiladu.
- Mae'r Gwasanaethau Cyflogwyr yn rhoi ateb cyflawn i broblemau sgiliau'r holl ddiwydiant adeiladu. Maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod gofynion

sgiliau'r presennol a'r dyfodol yn cael eu hwyluso a'u bodloni, ac yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, ynghyd â gwasanaethau priodol, i helpu i ddatblygu'r gweithlu cymwysedig.



Engineering Construction Industry Training Board

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianeg (ECITB) yw'r sefydliad statudol, y darparwr hyfforddiant cenedlaethol a'r corff dyfarnu sydd â chyfrifoldeb am hyfforddi a datblygu gweithlu diwydiant adeiladu peirianeg y DU. Mae ECITB yn darparu cyngor proffesiynol, gwybodaeth, cyfleoedd datblygu sgiliau a chymwysterau i helpu unigolion yn y byd adeiladu peirianeg i lwyddo yn eu gyrfaedd dewisedig.

Amcanion ECITB:

Mae'r sector niwclear yn cyflwyno'i gyfleoedd a'i heriau ei hun i'r diwydiant adeiladu peirianeg. Mae'n galw am beirianwyr a thechnegwyr medrus iawn sy'n gallu defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf: mae tua 11 y cant o weithlu adeiladu peirianeg y DU yn ymwneud â gwaith niwclear a bydd hyn yn codi i 20 y cant wrth i'r rhaglen adeiladu newydd ddatblygu. Mewn ymateb i'r galw hwn, mae ECITB yn buddsoddi tua £6M yn flynyddol – 20 y cant o'i holl weithgarwch buddsoddi – mewn rhaglen gydgysylltiedig o wella sgiliau ar gyfer niwclear.

Cyrsiau Penodol ar gyfer Niwclear:

Datblygwyd y rhaglen gwella sgiliau gan ymgynghori â chyflogwyr a rhanddeiliaid y diwydiant niwclear ac mae wedi'i seilio'n uniongyrchol ar ei anghenion. Mae'r cyrsiau penodol presennol ar gyfer niwclear sy'n gymwys i gael cymorth yn cynnwys: Y Dyfarniad mewn Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant Niwclear; Y Dystysgrif mewn Arwain Timau Niwclear; Cynnal Systemau Niwclear; Datblygu Sgiliau Niwclear; a'r Dystysgrif Proffesiynoldeb Niwclear.

Prosiectau Allweddol:

Mae ECITB yn gweithio yn rhan o'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear i sicrhau bod diwydiant niwclear y DU a'i gadwyn gyflenwi yn cael eu cynnal gan weithlu adeiladu peirianeg sydd â'r sgiliau, y gallu a'r capasiti i gyflawni'n llwyddiannus raglen niwclear y DU yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r prosiectau allweddol yn cynnwys: gwella safonau rheoli a hyfforddiant prosiectau a rhaglenni; hyfforddiant i oruchwylwyr safleoedd; a datblygu a gweithredu 21 o safonau hyfforddi newydd ar gyfer weldio a goruchwylwyr weldio. Mae ECITB hefyd yn cydgysylltu twf 15 o fframweithiau prentisiaeth i gynorthwyo'r rhaglen niwclear.

Rheolwr Penodedig ar gyfer y Sector Niwclear:

Mae gan ECITB Reolwr Penodedig ar gyfer y Sector Niwclear, ac Aelod o'r Bwrdd a benodwyd o'r diwydiant niwclear. Rhan bwysig o'u gwaith yw gwella'r ymgysylltu â chwsmeriaid a datblygu cyfathrebu yn y diwydiant niwclear. **Gwefan:** www.ecitb.org.uk

Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear (sy'n cynnwys yr ASG Gweithgynhyrchu Niwclear) yw'r 'corff strategol arweiniol sy'n cynrychioli'r diwydiant er mwyn ysgogi, cydgysylltu a galluogi rhagoriaeth mewn sgiliau i gynorthwyo'r rhaglen niwclear.'

Mae'r Academi Sgiliau yn gorff aelodaeth a arweinir gan gyflogwyr ac a sefydlwyd i sicrhau bod gan Ddiwydiant Niwclear y DU a'i gadwyn gyflenwi y gweithlu niwclear medrus, cydnerth, cymwys a diogel sydd ei angen arnynt i gyflawni rhaglen niwclear y presennol a'r dyfodol. Mae'r ffocws ar ddatblygu'r safonau proffesiynoldeb niwclear sy'n iawn ac yn briodol (gan gynnwys ymddygiadau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant) ym mhob rhan o'r gweithlu, gydag egwyddorion diogelwch niwclear yn rhan annatod o'r cyfan. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy rwydwaith effeithiol o Ddarparwyr Ansawdd Uchel a thrwy bartneriaethau cryf ag aelodau o'r Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear, y Sefydliad Niwclear a Chymdeithas y Diwydiant Niwclear.

Amcanion:

Ymgysylltu â Chyflogwyr

- Cynnal a pharhau i ddatblygu rhwydwaith eang o aelodau sy'n gyflogwyr i sicrhau busnes cynaliadwy a llewyrchus sy'n diwallu anghenion y diwydiant
- Cydweithio â chyflogwyr i helpu i ddangos i'r cyhoedd a marchnadoedd targed y rhagoriaeth a sicrhawyd mewn datblygu sgiliau er mwyn iddynt ddeall y cyfleoedd

Gallu Adnoddau

- Parhau i nodi safonau a gweithredu mesurau gwella i helpu i ddangos bod gan y gweithlu gymwysterau a phrofiad addas
- Helpu'r gweithlu i gael y sgiliau sydd eu hangen i ategu cymhwysedd
- Diffinio a galluogi ymagwedd gydlynol at sgiliau ledled y DU

Capasiti Adnoddau

- Cydweithio â chyflogwyr, llywodraeth a phartneriaid sgiliau i egluro a chyfleu'r adnoddau sydd eu hangen, fel bod y rhagolygon a'r llinellau amser presennol o ran galwad a chyflenwad yn glir ac yn cael sylw fel bod disgwyliadau'n cael eu rheoli
- Diffinio a galluogi ymagwedd gydlynol at gapasiti adnoddau ledled y DU

Rhwydwaith o Ddarparwyr Hyfforddiant Ansawdd Uchel

- Cynnal a pharhau i ddatblygu'r rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant ansawdd uchel i fodloni gofynion ansawdd ac argaeledd y rhaglen niwclear

- Annog pobl i fanteisio ar raglenni datblygu hyfforddwyr priodol i helpu i sicrhau hyfforddiant o ansawdd uchel

Gwefan: nuclear.nsacademy.co.uk | E-bost: enquiries@nuclear.nsacademy.co.uk | Ffôn: 01900 898120



Semta yw'r Cyngor Sgiliau Sector, a arweinir gan gyflogwyr, ar gyfer y sectorau Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Uwch, ac mae'n cynrychioli Awyrofod, Modurol, Deunyddiau Cyfansawdd, Trydanol, Electroneg, Cynnal a Chadw, Morol, Mathemateg, Mecanyddol, Metelau a Chynhyrchion Metel a Saernïwyd, Ynni Adnewyddadwy a Gwyddoniaeth. Mae Semta'n gyfrifol am 128,000 o gwmnïau ac am weithlu o 1.65 miliwn o bobl.

Mae Semta'n rhoi sylw i anghenion sgiliau'r sectorau, ac yn rhoi cymorth arbenigol i wella perfformiad a thwf. Gwna hyn drwy gydweithio â chyflogwyr, partneriaid a darparwyr hyfforddiant i lunio atebion sgiliau a hyfforddiant sy'n diwallu anghenion cyflogwyr.

Yn 2012 ymunodd Semta â'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear a'r Ganolfan Ymchwil Uwch-weithgynhyrchu Niwclear i greu'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Gweithgynhyrchu Niwclear, gyda chymorth gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau. Nod y fenter newydd hon yw helpu i harneisio sgiliau o safon fyd-eang sy'n bodoli mewn cyrff gweithgynhyrchu a datblygu sgiliau a gwybodaeth niwclear newydd, er mwyn gwella sector gweithgynhyrchu niwclear y DU.

Amcanion Semta

Helpu

Trefnu cyllid, darparwyr hyfforddiant o ansawdd ac offer i sicrhau bod cwmnïau'n elwa ar fuddsoddiadau

Cyflogi

Recriwtio a mentora prentisiaid a graddedigion peirianneg a STEM

Monitro

Manteisio ar allu'r gadwyn gyflenwi i lunio cynlluniau hyfforddi cwmnïau

Hyfforddi

Cynnig rhaglenni hyfforddi o ansawdd uchel, â chanlyniadau amlwg o'r gweithwyr i'r rheolwr gyfarwyddwr

Rhoi cyngor

Rhoi cyngor ar bopeth sydd ei angen i lwyddo yn y sector gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch

Gwefan: www.semta.org.uk

Twitter: Semta_4Skills

Mae Sefydliad Niwclear Dalton Prifysgol Manceinion yn cynrychioli cymuned addysg uwch ac YaD y DU yn y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i agenda addysg a sgiliau niwclear gyffredinol y DU a chaiff ei hystyried yn Sefydliad Addysg Uwch arweiniol ar gyfer addysg ac YaD sy'n gysylltiedig â niwclear. Mae'n arwain o leiaf deg consortiwm ymchwil a ariennir gan Gynghorau Ymchwil y DU ac yn cymryd rhan mewn mwy na phymtheg arall. Yn ogystal â'i chydweithredu â sefydliadau academiaidd eraill, mae ganddi gysylltiadau sefydlog cryf â diwydiant, labordai cenedlaethol a'r rheoleiddiwr. Mae'n aelod o'r consortiwm rheoli SBM ar gyfer y Labordy Niwclear Cenedlaethol, ac yn aelod o'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Niwclear.

Sgiliau Uwch – heriau, galluedd ac amcanion

Mae her uwch-sgiliau niwclear y DU yn fawr. Mae proffil oedran y sector yn golygu y bydd tua 70% o uwch-reolwyr ac arweinwyr ymchwil yn ymddeol ymheng degawd. Mae ehangu'n sylweddol y gallu i gynhyrchu ynni niwclear yn ychwanegu at yr her a bydd llwyddiant yn dibynnu'n dyngedfennol ar allu'r DU i adfywio ac ehangu'r sylfaen o weithwyr sydd â chymwysterau a phrofiad addas.

Trwy gydweithredu academiaidd, cydweithredu â'r Labordy Cenedlaethol a chydweithredu rhyngddisgyblaethol diwydiannol, mae Prifysgol Manceinion, ynghyd â sefydliadau academiaidd eraill yn y DU, yn chwarae rhan allweddol o ran darparu'r wybodaeth a'r sgiliau uwch sydd eu hangen ar y sector niwclear; mae'n cynnig cyrsiau gradd, cymwysterau ac ymchwil ôl-raddedig, a chysiau datblygiad proffesiynol ar gyfer diwydiant.

Mae gallu sector Prifysgolion y DU o ran datblygu sgiliau niwclear yn gryf ac yn ehangu. Yn y blynyddoedd diwethaf mae graddau Baglor mewn peirianeg a'r gwyddorau ffisegol wedi cynnwys mwy am niwclear ac mae graddau newydd wedi'u cychwyn ar lefelau Baglor a Meistr. Mae'r rhain yn cynnwys Peirianeg Niwclear (Caerhirfryn), Ffiseg ynghyd â Thechnoleg Niwclear (Lerpwl), Peirianeg Fecanyddol/Gemegol/Deunyddiau a Niwclear (Y Coleg Ymerodrol), a Pheirianeg Fecanyddol yn cynnwys Niwclear (Manceinion).

Ar lefel Meistr, mae Prifysgol Birmingham yn parhau i gynnal cwrs ar "Ffiseg a Thechnoleg Adweithyddion Niwclear". Mae cyrsiau Meistr eraill yn cynnwys Gradd Meistr Niwclear (a gydgyssylltir gan Brifysgol Manceinion) y Consortiwm Addysg Technoleg Niwclear, sy'n gweithredu fel cynghrair o un ar ddeg sefydliad dysgu uwch i ddarparu hyfforddiant cyffredinol ar ffurf modiwlau. Mae rhaglenni Meistr niwclear eraill yn cynnwys Peirianeg Niwclear (Y Coleg Ymerodrol), Cyfraith a Pholisi Niwclear (Dundee) ac Ymbelydredd a Diogelu'r Amgylchedd (Surrey).

O ran ymchwil, mae gallu'r byd academiaidd yn datblygu ac mae rhai o'r canolfannau rhagoriaeth wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol. Mae'r gallu hwn yn cynnwys 230 o staff academiaidd cyferth ag amser llawn, dros 600 o fyfyrwyr PhD a mwy na 130 o ymchwilwyr ôl-ddoethurol. Mae Cynghorau Ymchwil y DU yn helpu mwy na 25 o gonsortia ymchwil sy'n rhoi sylw i bob agwedd ar y cylchred tanwydd niwclear ac sy'n cael eu harwain gan ymchwilwyr rhyngwladol flaenllaw. Mae cyfleusterau ymchwil pwysig newydd, gan gynnwys Labordy Canolog y Labordy Niwclear Cenedlaethol, Cyfleuster Cymbriaidd Dalton Prifysgol Manceinion a Chanolfan Culham ar gyfer Ynni Ymasiad, yn dod ynghyd i greu Cyfleuster Defnyddwyr Niwclear Cenedlaethol.

Atodiad 2: Strwythur Rhaglen y Gynghrair Sgiliau

Haen 1: Arweinyddiaeth a llywodraethu

Cyfathrebu

Bwrdd Rheoli'r Rhaglen

Gwireddu Manteision

Haen 2: Grwpiau trawsbynciol

Gwybodaeth
am y Farchnad
Lafur

Cyllid

Darparu Sgiliau
a
Phrentisiaethau

Addysg Uwch

Haen 3: Grwpiau sector-benodol

Adeiladu

Adeiladu
Peirianeg

Gweithgynhyrchu

Gweithrediadau,
datgomisiynu a
phrosesu tanwydd

Y a D

Strwythur Rhaglen y Gynghrair Sgiliau Ynni Niwclear

Haen 1: Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Bwrdd Rheoli Rhaglen y Gynghrair Sgiliau, yn cynnwys yr is-grwpiau Cyfathrebu a Gwireddu Manteision

Mae'r Bwrdd Rheoli'n goruchwylio holl ffrydiau gwaith y Gynghrair. Mae'n monitro cynnydd yn y ffrydiau gwaith ac yn rheoli cyfathrebu strategol gyda chymorth yr is-grwpiau Gwireddu Manteision a Chyfathrebu.

Caiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr yr ASG Niwclear ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr lefel uwch o holl aelodau'r Gynghrair.

Y Bwrdd Rheoli hefyd yw prif 'berchennog' Cynllun Cyflawni ac Adolygiad Blynyddol y Gynghrair Sgiliau.

Bydd y Bwrdd Rheoli'n cyfarfod yn chwarterol, a bydd yr is-grwpiau'n cyfarfod o leiaf yn chwarterol, cyn y Bwrdd Rheoli, er mwyn i'r bwrdd gael y newyddion diweddaraf.

Haen 2: Grwpiau Trawsbynciol

Mae'r grwpiau hyn yn perthyn i ddau gategori:

- Mae'r grwpiau cyllid, darparu sgiliau a phrentisiaethau ac addysg uwch yn helpu i nodi'r her sgiliau yn eu maes, yn asesu'r ddarpariaeth bresennol ac, os bydd honno'n annigonol, yn cynnig camau lliniaru.
- Mae'r grŵp gwybodaeth am y farchnad lafur yn rhoi Model y Gweithlu Niwclear ar waith.

Arweinir y grwpiau gan gadeirydd penodol o un o aelodau'r Gynghrair, a chynhwysir cynrychiolwyr o aelodau eraill y Gynghrair/diwydiant pan fo'n briodol. Mae ganddynt hefyd reolwr prosiect penodol i helpu gyda'r ffrwd waith ac i lunio adroddiadau ar gynnydd.

Bydd y grwpiau'n cyfarfod o leiaf yn chwarterol, cyn y Bwrdd Rheoli, er mwyn i'r cyfarfod hwnnw gael y newyddion diweddaraf.

Bydd angen i gadeirydd pob grŵp ystyried y ffordd orau o gynnwys gweithgareddau'r grŵp yng Nghynllun Cyflawni ac Adolygiad Blynyddol y Gynghrair.

Haen 3: Grwpiau Sector-benodol

Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys y pum sector a gynrychiolir drwy aelodau'r Gynghrair; felly, mae'n dra phosibl eu bod yn grwpiau sy'n bodoli'n barod ac sy'n trafod materion sgiliau niwclear-benodol sydd yn gysylltiedig â'r sector hwnnw.

Maent yn gyfrifol am sicrhau cynnydd o ran y blaenoriaethau sgiliau y maent hwy yn eu harwain yng Nghynllun Cyflawni'r Gynghrair, a hefyd am nodi blaenoriaethau sgiliau newydd ar gyfer eu sector. Byddant yn cyfrannu at y grwpiau trawsbynciol haen 2 pan fo'n briodol.

Pan fo blaenoriaeth sgiliau yn y cynllun cyflawni yn cynnwys camau lliniaru gan fwy nag un corff sgiliau, y corff arweiniol sy'n gyfrifol am ymgysylltu â'r cyrff sgiliau eraill ac am ddiweddarau'r cynllun cyflawni i ddangos cynnydd.

Dogfennau Allweddol y Gynghrair Sgiliau

Mae'r Adolygiad Blyneddol yn nodi prif gyflawniadau'r Gynghrair dros y flwyddyn ddiwethaf, yr heriau ar gyfer y flwyddyn ddilynol a chynlluniau lefel uwch i ateb yr heriau hynny. Caiff ei lunio gan y grŵp Cyfathrebu (gyda chyfraniadau perthnasol gan holl aelodau'r Gynghrair fel y bo'n briodol) a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn ddogfen fanwl sy'n nodi'r prif heriau sgiliau penodol a wynebir gan y rhaglen niwclear sifil, a'r camau sy'n cael eu cymryd gan aelodau'r Gynghrair i fynd i'r afael â hwy. Cyfrifoldeb cadeirydd pob grŵp Haen 2 a 3 yw sicrhau bod yr adran berthnasol o'r cynllun cyflawni yn gyfredol ac yn gywir cyn pob cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli. Caiff y Cynllun Cyflawni ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli cyn ei roi i ddiwydiant.